## P-06-1460 Ystyried opsiynau i drosglwyddo perchnogaeth asedau hanesyddol o Ystad y Goron i Lywodraeth Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Arfon Jones ôl casglu 1,612 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Ystad y Goron sy'n berchen ar gestyll Caernarfon, Harlech a Dinbych ac Abaty Tyndyrn. Dyma rai o adeiladau eiconig Cymru sydd â chysylltiad agos â digwyddiadau yn hanes y wlad, yn enwedig Castell Harlech ac Owain Glyndŵr.

Mae'r adeiladau hyn yn bwysig i'n hunaniaeth genedlaethol a'n cof cenedlaethol. Dylai Gweinidogion Cymru ystyried opsiynau i drosglwyddo perchnogaeth yr adeiladau hyn o Ystad y Goron yn ôl i bobl Cymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:

Mae cais Rhyddid Gwybodaeth i CADW yn dangos mai Ystad y Goron sy'n berchen ar gestyll Caernarfon, Harlech a Dinbych ac Abaty Tyndyrn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Wrecsam
- Gogledd Cymru